

Mae ffabrig canoloesol eglwys y Santes Fair yn goroesi yn nhŵr gangell a rhywfaint o rwyllwaith ar y ffenestri. Mae darnau o wydr canoloesol yn ffenestr ogleddol y gangell. Canoloesol diweddar yw'r bedyddfaen a'r clawr: daeth ail ddysgl bedyddio, Normanaidd, o adeilad cynharach. Daeth sgrin y gangell o'r 15fed ganrif o rhywle arall. Dyddir conglfeini yn y talcen gorllewinol i 1634 ac 1664; 17eg a 18fed ganrif yw'r cofadeiliau a slabiau'r llawr. Dyluniwyd ffenestri cangell y dwyrain (1894) a'r de gan John Jennings ac mae'r organ gan adeiladwyr organ mwyaf blaenllaw Iwerddon, Telford & Telford. Ar wahan i hynny, gwaith dau feistr o ddiwedd y 19eg ganrif yw'r eglwys – John Dando Sedding (1838–91) a Heywood Sumner (1853–1940).

Yn 1982 datganwyd bod yr eglwys yn gyntaf yn anniogel, ac yna yn ddiangen. Cynigiodd yr esgobaeth ei llosgi i'r llawr! Symbylwyd y Friends i ddod i'w hachub gan gefnogwyr lleol gyda chefnogaeth y Victorian Society, a grant o 100% ar gyfer gwaith trwsio gan Cadw. Daeth i ni yn 1989. Bu rhaglen atgyweirio gynhwysfawr yn 2006-8, gyda chymorth y Pilgrim Trust. Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I.

John Dando Sedding

Hyfforddodd Sedding dan G.E. Street, ynghyd â Philip Webb, William Morris a Norman Shaw. Yn 1873 cafodd ei gomisiynu i 'atgyweirio'r' eglwys: mewn gwirionedd mae'n waith ail-adeiladu. Greddf bensaernïol Sedding oedd i barchu'r gorffennol: cynnwys yn ofalus y gorau o'r hen gyda gwaith newydd ystyriol – megis y paladr a'r pen newydd ar gyfer croes ganoloesol y fynwent. Dyluniodd wrthgefn a rheiliau allor newydd; talcen y gloch, ac o bosib rhai cofadeiliau yn y fynwent. Cwblhawyd y cyfan erbyn 1876.

Aeth Sedding yn ei flaen i adeiladu llawer o eglwysi, gan gynnwys y gampwaith Celf a Chrefft, Holy Trinity, Sloane Street, Chelsea (1888–90).



Gwydr Canoloesol

Y Benedicite

Mae tu mewn yr eglwys yn gyfres symffonig o baneli mur lliwgar yn darlunio'r Benedicite, mewn gwaith "sgraffito", proses lafurus o addurno a ail-ddyfeisiwyd gan Heywood Sumner, a gafodd ei argymhell ar gyfer y gwaith gan Sedding. Treuliodd Sumner dri haf arno, 1888-90. Hwn yw'r unig enghraifft yng Nghymru: gwnaeth Sumner gynlluniau sgraffito eraill yn All Saints, Ennismore Gardens (1896–1903) a Sant Agatha, Portsmouth (1901).

Rhoddir pum haen o blaster i'r mur, bob un at wahanol drwch, a gadewir hwy i sychu dros nos. Yn y bore, gorchuddir y cyfan â phlaster newydd, sydd yna yn cael ei dorri i fwrdd i wahanol ddyfnderau i ddangos y lliwiau a ddymunir. Gall un gwall olygu colli gwaith y dydd i gyd: mae'r plaster top yn rhy galed i weithio arno erbyn amser cinio.

Tirwedd lleol Sir Fynwy yw'r golygfeydd – mae 'O ye mountains and hills' yn cynnwys Mynydd Pen-y-Fâl, Blorens ac Ysgyryd Fawr yn y Fenni (wedi eu gosod yn gelfydd!).



Rosamond Emily Coussmaker

Y cleient ar gyfer yr holl waith oedd y Parch William Coussmaker Lindsay (1832–1912), o Eton a Choleg y Drindod, Dulyn – yn artistig a chyda cysylltiadau da: gor-ŵyr i Iarll Balcarres; brawd-yng-nghyfraith i ferch Arglwydd Tredegar (rhoddodd Tredegar fywoliaethau Llanfaches a Llanfair iddo); cyfynder i sefydlydd y Grosvenor Gallery; a Chaplan i Ieirll Crawford.

Ei gofadail i'w wraig, Rosamond (1840–85), yw'r paneli.



